

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Tŷ Gwyn Hall

Elysium Healthcare

Dyddiad arolygu: 27 – 29 Ionawr
2020

Dyddiad cyhoeddi: 29 Ebrill 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	25
4.	Beth nesaf?	29
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	30
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	31
	Atodiad B – Cynllun gwella	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol Tŷ Gwyn Hall, Llandeilo Bertholau, Y Fenni, NP7 6NY gyda'r nos ar 27 Ionawr ac ar y dyddiau dilynol, sef 28 a 29 Ionawr 2020. Elysium Healthcare sy'n berchen ar yr ysbyty.

Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Tŷ Gwyn Hall
- Skirrid View
- Pentwyn House

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleig. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael.

Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau addysg, seicoleg, therapi galwedigaethol a chymunedol.

Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau ac roedd angen ailaddurno ac adnewyddu rhannau o'r ysbyty.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Darparwyd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau i'r cleifion
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn unol â Mesur y Gymraeg.
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- Glendid a gwaith ailaddurno mewn rhai rhannau o'r ysbyty.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Gwyn Hall wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Tŷ Gwyn Hall, Llandeilo Bertholau, Y Fenni, NP7 6NY.

Mae Tŷ Gwyn Hall yn darparu'r canlynol, fel yr amlinellir yn amodau ei gofrestrriad:

- Tŷ Gwyn Hall (uned adsefydlu i ddynion a menywod, 17 gwely)
- Skirrid View (uned asesu i ddynion a menywod, 15 gwely)
- Pentwyn House (uned gofal llai dwys i ddynion a menywod, 4 gwely)

Ar adeg yr arolygiad, roedd 30 o gleifion yno.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Rheolwr yr Ysbyty a Rheolwr Gwasanaeth Clinigol, ynghyd â thimau amlddisgyblaethol ar y wardiau sy'n cynnwys rheolwyr wardiau, prif nyrsys, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymorth therapi. Roedd timau'r wardiau hefyd yn cael cymorth gan glinigwyr cyfrifol, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol a chydlynnydd gweithgareddau'r ysbyty.

Mae'r ysbyty'n cyflogi rheolwr cefnogi'r gwasanaeth a thîm o weithwyr cynnal a chadw, staff arlwyyo a staff domestig. Yn ogystal, mae tîm o staff gwasanaethau cymorth, staff cadw tŷ a staff gweinyddol. Cefnogir yr ysbyty gan strwythurau rheoli a threfniadol Elysium Healthcare.

Mae ffocws clir ar ofal iechyd corfforol yng ngwasanaeth Tŷ Gwyn Hall. Roedd nyrs iechyd corfforol wedi'i phenodi ers ein hymweliad diwethaf sy'n gweithio'n agos gyda'r tîm amlddisgyblaethol wrth reoli iechyd corfforol a llesiant y cleifion. Mae Tŷ Gwyn Hall hefyd yn defnyddio gwasanaethau yn y gymuned leol sy'n cynnwys meddygfeydd, deintyddion ac optegwyr.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ym mis Ionawr 2005.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, a gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapiau addas ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty, ac yn y gymuned, er mwyn helpu i adsefydlu'r cleifion.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau ym maes hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yng ngwasanaeth Tŷ Gwyn Hall a oedd yn helpu i gynnal a gwella eu llesiant. Roedd y lolfeydd yn darparu nifer o adnoddau defnyddiol i'r cleifion, megis gemau bwrdd, nwyddau celf a chrefft, a detholiad eang o DVDs a llyfrau.

Gallai'r cleifion yn Skirrid View hefyd ddefnyddio ardal harddwch a phampro yn y lolfâ. Gallai'r cleifion yn unedau Tŷ Gwyn Hall a Skirrid View ddefnyddio cyfarpar campfa, ond gwelsom fod cwpwrdd swyddfa yn yr ystafell ffitrwydd yn uned Tŷ Gwyn Hall a oedd yn ymddangos yn rhyfedd. Dylid dod o hyd i ardal storio arall ar gyfer y cwpwrdd hwn.

Roedd cydlynnydd gweithgareddau hefyd yn darparu clwb ffitrwydd yn yr awyr agored lle gallai'r cleifion gymryd rhan mewn gemau pêl-droed, rownders a sesiynau ffitrwydd awyr agored. Nid oedd y cydlynnydd gweithgareddau yn y gwaith ar adeg ein harolygiad. Dywedodd rhai o'r cleifion a siaradodd â ni fod y gweithgareddau yn ystod y dydd yn gyfyngedig. Dylai'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr bod y lefelau staffio'n hyblyg i allu ymdopi â newidiadau mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ar gael i'r cleifion yn ystod y dydd o hyd.

Roedd y staff therapi galwedigaethol a siaradodd â ni yn frwdfrydig iawn am eu rolau ac roeddent yn awyddus i ddweud wrthym am y gweithgareddau roeddent

wedi'u cynllunio ar y cyd â'r cleifion yn yr ysbyty ac yn y gymuned leol. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r cleifion yn mynd allan i'r gymuned er mwyn siopa, mynd i nofio, ymweld â'r llyfrgell a dilyn cyrsiau yn y coleg.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y therapyddion galwedigaethol swyddfa i weithio ohoni, ond roedd cynlluniau ar waith i ddatblygu Tŷ Gwyn Hall yn yr hirdymor a oedd yn cynnwys adeilad therapi galwedigaethol newydd. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig roi gwybod i AGIC am y datblygiadau er mwyn sicrhau y bydd pob un o'r wardiau'n parhau i adlewyrchu safonau priodol o ddarpariaeth i gleifion mewnol.

Gallai'r cleifion gael gwasanaethau meddyg teulu a deintyddol a gweld gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ôl yr angen. Roedd cofnodion y cleifion hefyd yn dangos tystiolaeth bod asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol wedi digwydd. Roedd y staff yn gallu defnyddio pedwar cerbyd ysbyty dynodedig a oedd yn golygu y gallent fynd â'r cleifion i weithgareddau ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Ni chaniateir smygu yn adeiladau'r ysbyty, ond roedd ardaloedd smygu dynodedig ar gael i'r cleifion yn yr ardd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn symud y cwpwrdd o'r ystafell ffitrwydd yn uned Tŷ Gwyn Hall.

Dylai'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr bod y lefelau staffio'n hyblyg i allu ymdopi â newidiadau mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ar gael i'r cleifion yn ystod y dydd o hyd.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y ward, yr uwch-reolwyr a'r staff gweinyddol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgarn tuag at y cleifion.

Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi dogfennu a deall dewisiadau cleifion unigol o ran ymyriadau ar gyfer rheoli eu hymddygiadau heriol. Yn ystod ein sgysiau â'r cleifion a'r staff, rhoddwyd gwybod i ni fod y dewisiadau lefel

uwch hyn yn cael eu parchu, lle bo modd, a oedd yn helpu i gynnal urddas a llesiant y cleifion.

Ym mhob rhan o'r ysbyty, roedd tystiolaeth glir o arferion staff a pholisïau a oedd yn dilyn yr Arferion Gofal Lleiaf Cyfyngol. Roedd hyn yn helpu i gynnal urddas y cleifion a gwella'r gofal unigol yn Tŷ Gwyn Hall.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely eu hunain, y gallai'r staff eu datgloi os oedd angen. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig digon o le storio ac roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafell gyda lluniau a phosteri. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn curo ar ddrysau'r cleifion cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd gwely.

Roedd trefniadau addas ar waith ym mhob un o'r wardiau i alluogi'r cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn yn breifat. Yn dibynnu ar asesiad risg unigol, gallai'r cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol. Roedd y cleifion yn llofnodi contract ffôn symudol â'r darparwr cofrestredig i gytuno ar delerau defnydd er mwyn cadarnhau na fyddai'r ffôn symudol yn cael ei gamddefnyddio nac yn tynnu sylw'r cleifion rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gan yr ysbyty ddatganiad ysgrifenedig o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Ar y wardiau, gwelsom bosteri eiriolaeth a oedd yn darparu manylion cyswllt ar gyfer cael gafael ar y gwasanaeth. Roedd gwybodaeth am eiriolaeth a thystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd wedi'u harddangos, ynghyd â gwybodaeth am y broses gwyno a sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bosteri dwyieithog na gwybodaeth wedi'u harddangos yn Gymraeg yn yr ysbyty. Gan fod y gwasanaeth yng Nghymru, dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion dreulio amser gyda theulu a ffrindiau; roedd ystafell i ymwelwyr ar gael, ond nid oedd llawer o wybodaeth i deuluoedd nac ymwelwyr yn yr ystafell hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am yr ysbyty ar gael yn yr ystafell i ymwelwyr ar gyfer teuluoedd ac ymwelwyr.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n cael ei harddangos yn yr ysbyty ar gael yn Gymraeg hefyd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i bob claf. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Yn aml, gwelsom y cleifion yn mynd at amrywiaeth o staff o'r tîm amlddisgyblaethol, ac roedd yn ganmoladwy gweld y staff yn treulio amser yn siarad â'r cleifion hyd yn oed os oeddent yn delio ag ymrwymadau eraill ar y pryd. Hefyd, gwelwyd rheolwr yr ysbyty yn siarad â'r cleifion, a oedd yn ymateb yn dda iddo, sy'n dangos bod rheolwr yr ysbyty wedi treulio amser yn dod i adnabod y cleifion yn unigol. Roedd yn amlwg bod rheolwr yr ysbyty yn wyneb cyfarwydd a chyfeillgar i'r cleifion.

Gwelsom gyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a dangosodd y staff lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion roeddent yn gofalu amdanynt. Dywedodd pob claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad ag aelod o staff os oedd angen. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr cryf rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys y cleifion a'r staff, gan gynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal unigol a chyfarfodydd cymunedol grŵp. Gwelsom amrywiaeth o gofnodion o gyfarfodydd yn ystod ein harolygiad a oedd yn dangos bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ymhlith y timau.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym am gyfarfodydd cymunedol y cleifion, sef menter gadarnhaol i roi llwyfan i ddefnyddwyr y gwasanaeth drafod unrhyw faterion neu welliannau roeddent am eu gwneud yn yr ysbyty. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd cleifion rheolaidd ac roedd yn braf clywed y staff a'r cleifion yn siarad am gyfarfodydd cymunedol y cleifion mewn ffordd gadarnhaol. Yn ogystal, roedd cynrychiolydd cleifion yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethu. Roedd hyn yn dangos bod strwythur llywodraethu'r ysbyty yn broses gynhwysol.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Cynllunio a darparu gofal

O safbwynt cynllunio gofal ac arferion yn yr ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Gwelsom fod tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yng nghynlluniau gofal y cleifion a oedd yn helpu i gefnogi'r ysbyty i allu rhoi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd y cynlluniau gofal wedi'u strwythuro'n dda ac yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Roedd adroddiadau cynnydd hefyd wedi'u dyddio a'u llofnodi gan y cleifion. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig i alluogi'r cleifion i gyflawni nodau unigol.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd ymarfer y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal. Roedd papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn deall y rheswm dros eu cadw ac roedd ganddynt ddealltwriaeth o'u hawliau pan roeddent yn yr ysbyty.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr am sut i roi adborth. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion diweddar a chynlluniau gweithredu a oedd yn dangos sut roedd yr ysbyty yn gwneud gwelliannau a newidiadau yn seiliedig ar ganlyniad yr arolwg cleifion.

Roedd polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty.

Roedd cwynion yn cael eu categorio'n rhai anffurfiol a ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi ar bob ward mewn dogfen bapur, gyda chwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar gofnodlyfr cwynion cyfrifiadurol i'r ysbyty cyfan.

Drwy fwrw golwg dros sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol, gwelsom fod person annibynnol yn gyfrifol am ymchwilio i'r gŵyn a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad er mwyn sicrhau bod yr ysbyty'n ymdrin â chwynion yn briodol.

Roedd cwynion hefyd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol y claf, ynghyd â'u canlyniadau. Roedd y broses gwyno a chamau gweithredu cysylltiedig yn cael eu goruchwyllo gan reolwr yr ysbyty. Roedd gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth am y broses gwyno a dealltwriaeth ohoni hefyd.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion; fodd bynnag, roedd angen ailaddurno ac adnewyddu rhai ardaloedd.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch yn ysbyty Tŷ Gwyn Hall. O safbwynt cynllunio gofal ac arferion wardiau ac ysbyty, roedd yr ysbyty yn darparu gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a oedd yn cael ei gynnal gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd y staff yn defnyddio dyfeisiau cyfathrebu radio y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd mannau galw am nyrs hefyd o amgylch yr unedau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion alw am gymorth os oedd angen. Gwnaethom nodi nad oedd gan y staff larymau personol a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai'n fuddiol eu cael. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu darpariaethau diogelwch ar gyfer y staff yn yr ysbyty a rhaid ystyried rhoi larymau personol i'r staff.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain. Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff wedi cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad.

Roedd y staff yn gallu rhoi gwybod am broblemau amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty a oedd yn cynnal cofnod o broblemau a'r gwaith yr oedd ei angen a'r gwaith a gwblhawyd. Cawsom wybod bod tîm ystadau'r ysbyty yn ymatebol ac

yn cyfeirio at gontractwyr yn brydlon yn ôl yr angen. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y tîm ystadau yn ymateb i waith cynnal a chadw ac yn ymgymryd â'r gwaith hwnnw er mwyn unioni problemau amgylcheddol.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Cofnodwyd digwyddiadau ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal corfforol yn cael ei ddogfennu, gan gynnwys pwy oedd dan sylw ac osgo corff pob person dan sylw. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu cysylltu'n awtomatig â nodiadau gofal electronig y claf unigol a oedd yn sicrhau bod y rhain yn gyfredol.

Roedd hierarchaeth ar waith o ran ymdrin â digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n amserol gan aelod o'r tîm clinigol sydd ynghlwm wrth ofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn yr ysbyty.

Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol i edrych ar feysydd penodol yn ôl yr angen. Roedd y system a'r amserlenni ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel yn ysbyty Tŷ Gwyn Hall.

Roedd yr ysbyty wedi rhoi cynllun parhad busnes ar waith a oedd yn cynnwys ymatebion y gwasanaeth i bethau fel tywydd garw, methiannau cyfleustodau ac achosion o glefydau heintus.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y toiled ger derbynfa Tŷ Gwyn Hall wedi'i faeddu ac yn frwnt. Roedd arogl cryf o wrin ar y llawr lamiad yn y coridor a oedd yn arwain at y toiled hefyd. Roedd rhai staeniau dŵr yng ngweddill yr ystafelloedd ymolchi yn Tŷ Gwyn Hall ac roedd angen eu hadnewyddu. Disgwylir i nifer o brosiectau adnewyddu ddechrau yn yr ysbyty a chawsom wybod gan reolwr yr ysbyty fod y rhain yn cynnwys toiledau Tŷ Gwyn Hall ac ystafell ymolchi Skirrid View. Fodd bynnag, yn y cyfamser mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod toiledau Tŷ Gwyn Hall yn lân ac nad ydynt yn aroglu o wrin.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu darpariaethau diogelwch ar gyfer y staff yn yr ysbyty a rhaid ystyried rhoi larwm personol i'r staff.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod toiledau Tŷ Gwyn Hall yn cael eu glanhau ac nad yw'r ardal sy'n arwain atynt yn aroglu o wrin.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd staff cadw tŷ dynodedig wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth. Roedd holl ardaloedd cymunedol yr ysbyty yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd system gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Roedd archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u ffeilio'n briodol. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel bod y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth gan y staff yn seiliedig ar anghenion unigol. Fodd bynnag, roedd y cyfleusterau golchi dillad yn fach iawn ac, am fod lle'n brin, ni allai dau berson eu defnyddio'n gyfforddus. Roedd hyn yn golygu ei fod yn anodd iawn i gleifion ddefnyddio'r cyfleusterau i olchi eu dillad eu hunain os oedd angen cymorth arnynt. Hefyd, nid oedd unrhyw le storio na silffoedd er mwyn cadw eitemau golchi dillad y cleifion.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o le storio ar gyfer dillad y cleifion yn yr ystafell golchi dillad.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi. Gwnaethom nodi bod y bin meddyginiaeth yn Skirrid View yn llawn ar adeg ein harolygiad. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bin meddyginiaeth yn cael ei wagio'n rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod lle storio digonol ar gael er mwyn storio dillad glân y cleifion.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael ardal fwy addas ar gyfer cyfleusterau golchi dillad sydd â digon o le i helpu'r cleifion i ddatblygu'r sgîl bywyd pwysig hwn fel rhan o'u rhaglen ailsefydlu.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bin meddyginiaeth yn cael ei wagio'n rheolaidd.

Maeth

Gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Yn Skirrid View, mae bwrdd du a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd, sy'n cynnwys dewisiadau cinio a the y diwrnod hwnnw. Mae'r cleifion yn cael brecwast, cinio, te a swper bob dydd. Dywedodd y cleifion eu bod yn dewis yr hyn yr hoffent ei gael ar y pryd ac nad oes rhaid iddynt ddewis ymlaen llaw. Cawsom wybod hefyd y darperir ar gyfer cleifion ag anghenion deietegol penodol. Bydd staff y gegin yn cwrdd â'r cleifion yn rheolaidd er mwyn trafod eu hanghenion a'u dymuniadau deietegol ac yn gwneud pob ymdrech i fodloni eu gofynion. Dywedodd y cleifion wrthym am achosion lle maent wedi gofyn am opsiynau amgen a darparwyd y rhain.

Yn yr ardaloedd bwyta yn yr ysbyty, roedd te, coffi, llaeth a diod ffrwythau ar gael yn rhydd i'r cleifion. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd y gallant brynu diodydd a byrbyrdau a'u cadw yn eu hystafelloedd gwely. Yn ogystal â'r prydau a ddarperir, gallai'r cleifion brynu bwyd pan fyddent allan yn y gymuned a threfnu i gludfwyd gael ei anfon i'r ysbyty.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, nodwyd bod y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd pob un o'r ystafelloedd clinig yn cael eu cloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, yn yr un modd â chypyrddau meddyginiaeth. Roedd tymereddau'r oergelloedd meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael eu monitro a'u cofnodi, er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd cywir. Hefyd, roedd y trolïau meddyginiaeth yn cael eu rhoi'n sownd yn wal yr ystafell clinig, er mwyn atal rhywun heb awdurdod rhag eu symud.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar y ward ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal ddwywaith y dydd a'u bod

wedi'u hardystio â'r llofnodion priodol gan nyrsys. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai dim ond blaenlythrennau oedd y llofnodion ac nid oedd yn gwbl glir pa aelod o'r staff oedd yn ardystio bod y gwiriadau wedi'u cynnal. Nid oedd mynegai ar flaen y cofnodion ac nid oedd rhif cofrestru meddyg na rhif PIN nyrs er mwyn helpu i adnabod y llofnod, felly roedd yn anodd cysylltu'r blaenlythrennau â'r aelod o'r staff meddygol. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wiriadau a gwblhawyd yn cynnwys llofnodion y gellir eu hadnabod yn hawdd.

Gwnaethom nodi bod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)¹ a welwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau'r holl fanylion perthnasol am y claf ar y dudalen flaen a thudalennau dilynol, ei statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a sicrhau bod yr holl ffurflenni cydsynio i driniaeth yn bresennol gyda'r siartiau. Wrth i ni adolygu rhai Siartiau MAR, gwelsom eu bod wedi rhoi'r gorau i ragnodi rhai cyffuriau, ond nid oedd wedi ei nodi'n glir nad oedd angen y cyffur mwyach. Mae'n rhaid i'r ysbyty sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth nad yw'n cael ei rhagnodi mwyach yn cael ei chroesi allan yn glir, yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaethau'n ddiogel a pholisi'r ysbyty.

Roedd y Siartiau MAR a welwyd yn dangos bod ystod o feddyginiaethau'n cael eu rhagnodi ar sail anghenion unigol a lle nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi, roedd y rheswm wedi cael ei gofnodi'n briodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi dau achos pan na roddwyd meddyginiaeth am fod yr ysbyty'n aros i'r feddyginiaeth gyrraedd. Mae angen i'r darparwr cofrestredig a'r fferyllfa ddatblygu system fwy cadarn ar gyfer rheoli ac archebu meddyginiaeth nad yw mewn stoc a meddyginiaeth frys.

¹ Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

Mae'r fferylllydd yn ymweld â'r ysbyty bob wythnos ac yn cwblhau gwiriadau o'r ystafelloedd clinig, yn archwilio meddyginiaethau ac yn llunio adroddiad ar gyfer yr ysbyty. Caiff yr adroddiad hwn ei anfon yn electronig a nodir unrhyw faterion. Wrth astudio'r adroddiad hwn, gwelsom wallau meddyginiaeth lle roedd gwallau ysgrifennu presgripsiwn wedi'u cofnodi ar gyfer unedau Tŷ Gwyn Hall a Skirrid View. Roedd rhai o'r gwallau hyn yn cynnwys peidio â llofnodi neu ddyddio rhai presgripsiynau. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau'n cael eu hysgrifennu'n gywir er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn gallu cael gafael ar y feddyginiaeth gywir. Roedd yr adroddiad fferylliaeth hefyd yn dangos ac yn cefnogi'r siartiau meddyginiaeth a archwiliwyd fel y nodwyd uchod lle nad oedd meddyginiaethau wedi cael eu rhoi am nad oeddent mewn stoc. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr adroddiad gweithgarwch fferylliaeth yn cael ei adolygu a'i drafod mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac yr ymchwilir i unrhyw faterion yn briodol. Dylid cynnal hyfforddiant ac ymyriadau rheoli priodol os bydd unrhyw themâu neu wallau yn codi dro ar ôl tro.

Gwnaethom hefyd nodi bod yr ysbyty'n rhagnodi dosau uchel o driniaethau gwrthseicotig, ac roedd yn rhagnodi Equasym². Gwnaethom fwrw golwg dros gofnodion y cleifion a siarad â'r staff er mwyn casglu tystiolaeth ynghylch eu defnydd a'r symiau a gaiff eu rhagnodi. Yn dilyn sgysiau â'r staff, rhoddodd y rhesymau a gawsom dros eu defnydd dawelwch meddwl i ni. Gwnaethom hefyd siarad â'r fferylllydd a gadarnhaodd fod cyfarfod wedi'i drefnu i drafod y materion a godwyd gennym. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhesymeg y tu ôl i'r defnydd o'r cyffuriau hyn a'r dosau a roddir a bod y cyfiawnhad dros eu defnyddio wedi'i gofnodi'n briodol yng nghofnodion y cleifion. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod polisi meddyginiaeth yr ysbyty'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

² Cyffur a gaiff ei ddefnyddio i drin Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) yw Equasym

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi'n gywir ar gyfer Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio bob amser ac y gellir cysylltu'r llofnod ag aelod o'r staff.

Mae angen i'r darparwr cofrestredig a'r fferyllfa ddatblygu system fwy cadarn ar gyfer rheoli ac archebu meddyginiaeth nad yw mewn stoc a meddyginiaeth frys.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau'n cael eu hysgrifennu'n gywir er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn gallu cael gafael ar y feddyginiaeth gywir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dosau uchel o driniaethau gwrthseicotig ac Equasym yn cael eu dogfennu, eu cyfiawnhau a'u rhesymoli yng nghofnodion y cleifion.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau'n cael eu hysgrifennu'n gywir er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn gallu cael gafael ar y feddyginiaeth gywir.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr adroddiad gweithgarwch fferylliaeth yn cael ei adolygu a'i drafod mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac yr ymchwilir i unrhyw faterion yn briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos y broses o wneud atgyfeiriad diogelu. Roedd yn amlwg o sgysiau â rheolwr yr ysbyty fod yr ysbyty wedi meithrin cydberthynas waith agos â'r awdurdod lleol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn allweddol er mwyn sicrhau prosesau diogelu effeithiol ac roedd yn dangos bod yr ysbyty yn rhoi pwyslais cryf ar ddiogelu eu cleifion. Gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty oedd yn arwain ar brosesau diogelu, trefniadau ymweld/cyswllt â phlant a chynllunio gofal.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff yn cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad. Mae bag achosion brys yn swyddfa'r staff yn uned Pentwyn House, a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant yn unig.

Gwnaethom archwilio'r bag hwn a nodi bod sawl eitem ar goll. Mae'r staff yn gwbl ymwybodol y caiff y bag hwn ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant yn unig ac y gallant ddefnyddio bag achosion brys ar gyfer Skirrid View petai argyfwng. Fodd bynnag, dylid ystyried cael bag achosion brys penodol ar gyfer Pentwyn House, un sy'n cael ei archwilio a'i gofnodi'n rheolaidd.

Roedd nifer o dorwyr clymau ar gael ym mhob ward i'w defnyddio mewn argyfwng. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu. Gwnaethom nodi bod y staff yn cario bwndeli mawr o allweddi a all effeithio ar eu gallu i ddod o hyd i allwedd yn gyflym mewn argyfwng. Byddem yn argymhell bod rheolwr yr ysbyty yn adolygu hyn ac yn canfod ateb sy'n golygu nad oes rhaid i'r staff gario bwndeli mawr o allweddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael bag achosion brys cwbl ymarferol yn uned Pentwyn House.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r bwndeli mawr o allweddi y mae'r staff yn eu cario er mwyn ei gwneud yn haws i'r staff ddod o hyd i allweddi mewn argyfwng.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol yr ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu canolog Elysium Healthcare a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai'r staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol ond dim ond pan fetho popeth arall. Gwnaethom nodi bod tystiolaeth dda o'r technegau llonyddu ac adnabod sbardunau a ddefnyddir yn y ddogfennaeth y gwnaethom ei harchwilio. Cynhelir sesiynau dadfrifio ar ôl digwyddiadau a defnyddir y broses hon fel techneg dysgu ac ymarfer myfyriol wedi'i chefnogi gan seicoleg.

Cwblheir ffurflen digwyddiadau ar gyfer pob achos o atal yn gorfforol neu dawelu ar lafar; yna caiff y digwyddiad ei drafod mewn cyfarfodydd llywodraethu a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd cysylltiadau â cholegau, canolfannau hamdden a mentrau cymunedol lleol yn sicrhau bod y cleifion yn cael mynediad at gyrsiau a gweithgareddau, gan eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Roedd llawer o enghreifftiau o'r cleifion yn cael eu cynnwys yng ngrwpiau cerdded yr ysbyty ac yn manteisio ar weithgareddau awyr agored yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd systemau cofnodion cyfrifiadurol y cleifion wedi'u datblygu'n dda ac yn rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig ac roedd cyfrineiriau yn cael eu defnyddio i atal mynediad anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o gofnodion y cleifion ar bob un o'r wardiau. Roedd yn amlwg bod staff o'r timau amlddisgyblaethol yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn darparu dogfen fyw am y claf a'i gofal.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau dogfennaeth gofal ac asesiadau risg yn llawn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros y dogfennau cadw statudol ar gyfer tri chlaf ym mhob rhan o'r ysbyty, a oedd yn cynnwys Tŷ Gwyn Hall, Pentwyn House a Skirrid View.

Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Cod). Roedd systemau archwilio cadarn ar waith ar gyfer rheoli ac archwilio dogfennau statudol ac roedd y Ddeddf yn rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol. Roedd

cofnodion clir o gleifion yn cael gwybod am eu hawliau statudol ar lafar ac yn ysgrifenedig yn rheolaidd drwy gydol eu cyfnod cadw.

Roedd cyfnodau cadw'r cleifion yn cael eu hadolygu o fewn amserlenni ym mhaneli adolygu rheolwr yr ysbyty. Roedd tystiolaeth glir o'r cleifion yn cael eu gwahodd i apelio drwy broses ffurfiol ac yn cael eu cefnogi'n weithredol i wneud hynny drwy Swyddfa Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl, gwasanaethau eiriolaeth a'r tîm amlddisgyblaethol a oedd yn darparu adroddiadau cynhwysfawr wedi'u hysgrifennu'n dda ar gyfer yr apeliadau hyn.

Roedd yr holl wybodaeth i'r cleifion am y Ddeddf mewn iaith hawdd ei deall, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth weledol a syml a oedd yn berthnasol i'r claf unigol os oedd angen. Roedd darluniau ar hysbysfyrddau ym mhob rhan o'r ysbyty yn cynrychioli deddfwriaeth y Ddeddf ac ystyriwyd bod hyn yn arfer da.

Roedd y gwaith o weinyddu'r Ddeddf yn cael ei reoli gan Weinyddwr Deddf Iechyd Meddwl profiadol yn uned Tŷ Gwyn Hall, gyda chymorth tîm o dri aelod o staff ar safleoedd Elysium eraill yn ne Cymru. Mae hefyd yn aelod o Fforwm Rheolwyr Deddf Iechyd Meddwl Cymru Gyfan (lle caiff materion ac arferion da ynghylch y Ddeddf eu rhannu) sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu rhwydwaith cefnogi parhaus a chorff o wybodaeth.

Roedd gwasanaethau eiriolaeth ar gael ac yn hygyrch i'r holl gleifion.

Roedd cydymffurfiaeth amlwg â phroses y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, er enghraifft roedd amserlenni a threfniadau gweinyddol wedi gwella'n sylweddol, ac roedd hyn i'w weld drwy'r broses archwilio.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal chwe chlaf i gyd.

Gwnaethom adolygu sampl o bum ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddyliol a chorfforol.

Roedd asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau yn ystod cyfnod derbyn y claf, a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y wardiau. Roedd tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Roedd cynlluniau rheoli risg hefyd yn cael eu personoli ac yn nodi sbardunau posibl i'r cleifion, gan alluogi'r staff i nodi newidiadau yn eu hymddygiad. Roedd

y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'u proffil rheoli risg, ynghyd â hyfforddiant y staff i ddefnyddio sgiliau er mwyn rheoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg cynhwysfawr yng nghofnodion y cleifion ac, mewn rhai achosion, gwelsom fod cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cael eu datblygu er mwyn helpu'r claf i nodi ei anghenion ei hun a helpu'r staff i nodi a rheoli risg. Roedd y cynlluniau hyn yn cael eu diweddarau o leiaf bob tri mis ond yn amlach fel arfer gan ddibynnu ar asesiad ac anghenion a oedd yn helpu i nodi ymddygiadau newidiol a sbardunau.

Roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn rhan o drafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Ar y cyfan, roedd y ddogfennaeth nyrsio a welwyd yn dda iawn ac roedd asesiadau corfforol wedi'u cwblhau'n dda.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant, goruchwyliaeth gan reolwyr ac arfarniadau blynyddol yn dda iawn.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymroddedig. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymroddedig. Roedd y tîm yn cynnwys grŵp cydlynol o arweinwyr ac, mewn cyfweiliadau â nhw, gwelwyd eu bod yn gwerthfawrogi'r staff a'r cleifion ac yn gofalu amdanynt, ac yn ceisio gwneud gwelliannau yn yr ysbyty. Roedd yn braf gweld

bod y swyddog sicrhau ansawdd a rheolwr yr ysbyty yn cyflwyno syniadau newydd er mwyn gwella arferion gwaith presennol.

Mae nifer o fentrau newydd ar y gweill i ddatblygu ac estyn yr ysbyty, gan gynnwys gosod toiledau ac ystafelloedd ymolchi newydd yn uned Tŷ Gwyn Hall, adnewyddu'r ystafell ymolchi gymunedol yn Skirrid View, a'r datblygiad newydd a fydd yn cynnwys mwy o le aros ac uned therapi galwedigaethol newydd.

Yn ogystal, ar adeg ein harolygiad, roedd Elysium Healthcare yn cyflwyno hyfforddiant i'r holl staff ar fodel gofal Safewards³ a bwriadwyd rhoi rhaglen sefydlu newydd ar gyfer staff ar waith ym mis Mawrth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i wasanaethau yn yr ysbyty ymdrin â chwynion gan gleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd hyn yn rhoi data priodol i'r staff nodi tueddiadau a phatrymau ymddygiad. Edrychwyd ar sampl o gofnodion cwynion yn ystod yr arolygiad i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cydymffurfio â'r polisi cwynion.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Dywedodd y staff wrthym ei bod yn hawdd mynd at aelodau o dîm rheoli'r ysbyty a'u bod yn weladwy, ac yn ystod cyfweiliadau â'r staff gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt yr hyder i siarad â'r tîm rheoli os oedd angen iddynt godi materion neu bryderon. Yn ogystal, roedd cyfarfodydd staff

³ Safewards - Model newydd ar gyfer gwrthdaro a chyfyngu ar ward seiciatrig.

rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r staff gael trafodaethau a rhannu gwybodaeth rhwng y timau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom edrych ar yr ystadegau hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod y cyfraddau cwblhau yn 85.5%. Cawsom ein sicrhau y bydd y maes hwn yn cael ei wella drwy roi'r rhaglen hyfforddiant newydd ar waith. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff.

Roedd yr holl staff yn cael Cyfarfodydd Datblygiad Proffesiynol rheolaidd gyda'r uwch-reolwyr a gwelsom dystiolaeth o drafodaethau a chynlluniau ystyrlon a pherthnasol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, a oedd wedi'u cofnodi yng nghofnodion y staff unigol.

Roedd strwythur goruchwyllo ar waith a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd. Siaradodd y staff yn gadarnhaol hefyd am y sesiynau goruchwyllo grŵp ac ymarfer myfyriol.

Cynhelir diwrnodau llesiant ar gyfer y staff ac roedd nifer o fentrau staff wedi cael eu cyflwyno, megis seren Elysium a oedd yn rhoi cyfle i'r staff a'r cleifion enwebu aelod o'r staff i gael seren i gydnabod gwaith da. Roedd y mentrau staff hyn yn dangos bod y tîm arwain yn gwerthfawrogi ac yn buddsoddi ym morâl a llesiant y staff ac yn gwerthfawrogi barn ei gleifion.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion pan oeddem yn bresennol ar y wardiau. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan y penaethiaid gofal a rheolwr yr ysbyty. Gallwn weld yn glir o'r cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu fod syniadau a barn y staff a'r cleifion yn cael eu gwerthfawrogi. Roedd aelod enwebedig o'r tîm gofal iechyd yn bresennol yn y cyfarfodydd bore ac roedd cleifion enwebedig yn mynychu'r cyfarfodydd llywodraethu.

Dywedodd y staff a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod rheolwr yr ysbyty yn hawdd mynd ato a bod ganddo bolisi drws agored. Gwelsom lawer o enghreifftiau o gleifion a staff yn mynd i swyddfa rheolwr yr ysbyty drwy gydol ein hymweliad. Roedd hyn yn dangos arweinyddiaeth gref a buddsoddiad yn y staff a'r cleifion sy'n gosod safonau i'r staff eu dilyn.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y lefelau staffio yn ddigonol o gofio lefel y ddibyniaeth ar adeg yr arolygiad. Cawsom ein hysbysu gan reolwr yr ysbyty fod rotâu y staff wedi'u cynllunio yn y fath fodd fel y gellid ymdopi ag

unrhyw absenoldebau ar fyr rybudd, heb effeithio'n andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

Ar adeg ein harolygiad, roedd cyfweiliadau staff yn cael eu cynnal ar gyfer rôl uwch-nyrs arweiniol newydd ei datblygu, a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r staff presennol ddatblygu drwy'r sefydliad. Hefyd, mae gan y gweithwyr gofal iechyd lwybr gyrfa strwythuredig gyda lefelau gwahanol o gyfrifoldebau a graddfeydd cyflog gwahanol.

Roedd llwybr gofal newydd wedi cael ei roi ar waith hefyd gyda thŷ gofal llai dwys yn y gymuned a oedd yn rhoi cyfle i'r cleifion presennol gael gofal seiliedig ar adfer yn y gymuned wrth fyw'n annibynnol. Siaradodd rheolwr yr ysbyty am gynlluniau yn y dyfodol i ddatblygu rhagor o dai yn y gymuned ar gyfer y cleifion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Fel y nodwyd yn adran rheoli gwybodaeth yr adroddiad hwn, roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn eu cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom ein sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg.

Roedd staff newydd eu penodi yn cael eu sefydlu am gyfnod o amser o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni a gwnaethant esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith yn yr ysbyty. Cawsom hefyd wybod am y rhaglen sefydlu newydd a fydd yn darparu hyfforddiant rhanbarthol bob pedair wythnos ar gyfer yr holl staff newydd. Yn ogystal, bydd unrhyw staff presennol y mae eu hyfforddiant gorfodol bron â dod i ben yn gallu mynychu modiwlau penodol ar y cwrs sefydlu, gan olygu y dylai gofynion hyfforddiant gorfodol y staff allu cael eu bodloni bob amser.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir i'r staff godi unrhyw bryderon ac roedd y staff y gwnaethom eu holi yn gwybod am y polisi. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff hefyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Gwyn Hall

Dyddiad arolygu: 27 – 29 Ionawr 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn symud y cwpwrdd o'r ystafell ffitrwydd yn uned Tŷ Gwyn Hall.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Byddwn yn cael gwared ar y cwpwrdd yn yr ystafell ffitrwydd yn uned Tŷ Gwyn Hall	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	31/03/2020
Dylai'r darparwr cofrestredig wneud yn siŵr bod y lefelau staffio'n hyblyg i allu ymdopi â newidiadau mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ar gael i'r cleifion yn ystod y dydd o hyd.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Bydd yr ysbyty'n parhau i fonitro lefelau staffio'n ddyddiol drwy ddefnyddio canllawiau "Staffio Diogel" Elysium Healthcare. Bydd y staffio'n hyblyg yn unol â'r galw o ddydd i ddydd er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ar gael drwy'r dydd. Yn ogystal, rydym wedi	Rheolwr y Ward	20/03/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		penodi aelodau o staff Cydlynu Gweithgareddau i weithio yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn sicrhau bod gweithgareddau mewnol a rhai yn y gymuned yn cael eu cynllunio a'u hwyluso.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am yr ysbyty ar gael yn yr ystafell i ymwelwyr ar gyfer teuluoedd ac ymwelwyr.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ysbyty yn cael ei harddangos ym mhob ystafell i ymwelwyr er mwyn sicrhau y gall teulu a ffrindiau ei gweld.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	31/03/2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sydd wedi'i harddangos yn yr ysbyty ar gael yn Gymraeg hefyd.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Lle y bo'n bosibl, bydd yr ysbyty yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	30/05/2020
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu darpariaethau diogelwch ar gyfer y staff yn yr ysbyty a rhaid ystyried rhoi larwm personol i'r staff.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae'r staff yn Uned Skirrid View eisoes yn defnyddio larymau ymosod personol fel rhan o'r System Galw Nyrsys bresennol.	Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	30 Mehefin 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod toiledau Tŷ Gwyn Hall yn cael eu glanhau ac nad yw'r ardal sy'n arwain atynt yn aroglu o wrin.	12. Yr amgylchedd	Byddwn yn trefnu i gontractwr cymeradwy adolygu'r system yn uned Tŷ Gwyn Hall ac yn trefnu i osod System Galw Nyrsys sy'n ymgorffori larwm personol. Bydd yr amserlen lanhau ar gyfer Tŷ Gwyn Hall yn cael ei diweddaru er mwyn cynyddu pa mor aml y caiff yr ardal hon ei glanhau, nes y gellir cwblhau'r gwaith adnewyddu.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod lle storio digonol ar gael er mwyn storio dillad glân y cleifion.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd yr ardal golchi dillad a'r system ar gyfer ymdrin â dillad y cleifion yn cael eu hadolygu er mwyn gallu storio dillad glân yn effeithiol	Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	30/04/2020
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael ardal fwy addas ar gyfer cyfleusterau golchi dillad sydd â digon o le i helpu'r cleifion i ddatblygu'r sgîl bywyd pwysig hwn fel rhan o'u rhaglen ailsefydlu.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd yr adeilad newydd arfaethedig, yr Uned Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys dau beiriant golchi dillad/sychwr yng nghegin y defnyddwyr gwasanaeth. Pan fydd yr adeilad hwn wedi'i gwblhau, bydd y defnyddwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio'r	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	30/09/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ardal hon i olchi eu dillad fel rhan o'u rhaglen ailsefydlu.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bin meddyginiaeth yn cael ei wagio'n rheolaidd.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Bydd y contract gwasanaeth ar gyfer y biniau meddyginiaeth yn cael ei adolygu ac, os bydd angen, yn cael ei gynyddu er mwyn sicrhau bod y gwastraff yn cael ei gasglu a'i waredu'n rheolaidd.	Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi'n gywir ar gyfer Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio bob amser ac y gellir cysylltu'r llofnod ag aelod o'r staff.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn sicrhau bod y cofnodion Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio yn cael eu llofnodi'n gywir ar ddiwedd pob sifft. Bydd Rheolwyr y Wardiau yn cynnal gwiriad wythnosol ac yn hysbysu'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol am unrhyw faterion yn ystod cyfarfodydd goruchwyllo wythnosol. Mewn achosion lle mae nyrsys penodol yn methu â chofnodi'r defnydd o Gyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all Gael eu Camddefnyddio yn gywir, byddant	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31/03/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn cael eu goruchwyllo a'u hyfforddi ac, yn y pen draw, byddant yn wynebu camau disgyblu er mwyn gwella eu perfformiad. Bydd copi o lofnodion a blaenlythrennau'r holl feddygon a nyrsys yn cael ei roi yn y ffolderi MAR unigol.		
Mae angen i'r darparwr cofrestredig a'r fferyllfa ddatblygu system fwy cadarn ar gyfer rheoli ac archebu meddyginiaeth nad yw mewn stoc a meddyginiaeth frys.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd yr holl nyrsys cofrestredig yn cael hyfforddiant ychwanegol ar archebu a storio meddyginiaeth drwy wasanaeth fferylliaeth Ashtons.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31/03/2020
		Bydd yr holl nyrsys cofrestredig yn cael hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio ffolder rheoli fferylliaeth Ashtons.		31/03/2020
		Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Clinigol yn monitro unrhyw achosion o beidio â rhoi meddyginiaeth oherwydd cyflenwad drwy system cofnodi digwyddiadau IRIS gydag		20/03/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymchwiliad llawn i unrhyw achosion o beidio â rhoi meddyginiaeth. Bydd Rheolwr y Ward yn monitro'r feddyginiaeth frys yn y bagiau achosion brys bob wythnos ac yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Gwasanaethau Clinigol am unrhyw anghysondebau.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau'n cael eu hysgrifennu'n gywir er mwyn sicrhau bod y staff a'r cleifion yn gallu cael gafael ar y feddyginiaeth gywir.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd ail ragnodwr yn craffu ar yr holl siartiau presgripsiynau ar ôl iddynt gael eu cwblhau er mwyn cadarnhau eu bod yn gywir.	Pob rhagnodwr	31/03/2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y dosau uchel o driniaethau gwrthseicotig ac Equasym yn cael eu dogfennu, eu cyfiawnhau a'u rhesymoli yng nghofnodion y cleifion.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd y Clinigydd Cyfrifol yn dogfennu ei resymeg dros drin y cleifion â'r meddyginiaethau hyn yn glir yng nghofnodion gofal yr unigolion.	Clinigydd Cyfrifol	31/03/20
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod presgripsiynau'n cael eu hysgrifennu'n gywir er mwyn sicrhau bod y	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd ail ragnodwr yn craffu ar yr holl siartiau presgripsiynau ar ôl iddynt gael eu cwblhau er mwyn	Pob rhagnodwr	31/03/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
staff a'r cleifion yn gallu cael gafael ar y feddyginiaeth gywir.		cadarnhau eu bod yn gywir.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr adroddiad gweithgarwch fferylliaeth yn cael ei adolygu a'i drafod mewn cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac yr ymchwilir i unrhyw faterion yn briodol.	15. Rheoli meddyginiaethau	Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys fel eitem benodol ar agenda ein cyfarfodydd llywodraethu clinigol, lle caiff cynlluniau gweithredu eu trafod ar gyfer materion a nodwyd a chymerir camau dilynol er mwyn olrhain cynnydd.	Rheolwr Gwasanaethau Clinigol	31/03/2020
Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried cael bag achosion brys cwbl ymarferol yn uned Pentwyn House.	16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	Bydd yr ysbyty yn caffael bag achosion brys cwbl ymarferol ar gyfer Pentwyn House.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	20/04/2020
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r bwndeli mawr o allweddi y mae'r staff yn eu cario er mwyn ei gwneud yn haws i'r staff ddod o hyd i allweddi mewn argyfwng.	16. Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	Bydd yr ysbyty yn prynu coffor allweddi electronig a fydd yn gwella ein gallu i storio allweddi hanfodol yn ddiogel yn y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys dyfais dracio a fydd yn golygu y bydd gennym drefn gadarn ar gyfer rheoli'r allweddi. Yn ogystal, bydd yr holl fwndeli allweddi presennol yn cael eu harchwilio er mwyn dod o hyd i	Rheolwr y Ward Uwch-nyrsys	31/03/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		allweddi nad oes eu hangen mwyach a chael gwared arnynt neu eu cadw'n ddiogel yn rhywle arall.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Shaun Cooper

Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty